GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Datganiad i'r Wasg / Press Release

15 Mehefin, 2010

Uned Ablett yn ennill
Gwobr 'Star Wards' am ofal cleifion rhagorol

Ar 2 Mehefin 2010, cyflwynwyd gwobr 'Star Wards' i Uned Ablett am ofal cleifion rhagorol.

Mae 'Star Wards' yn brosiect sy'n cydweithio ag unedau Iechyd Meddwl i wella profiadau dyddiol a chynlluniau triniaeth cleifion mewnol.

Mae digonedd o dystiolaeth yn y DU bellach fod gwasanaethau sydd wedi croesawu'r fenter 'Star Wards' wedi gwneud gwahaniaeth sylweddol i brofiadau, lles ac adferiad defnyddwyr y gwasanaeth.

Dechreuodd Uned Ablett ar y gwaith hwn ym mis Ionawr eleni, ac mae'n anhygoel eu bod wedi llwyddo i gael y wobr erbyn dechrau Mai.

Dywedodd Julie Mountford (Rheolwr Gwasanaeth), "Y tu ôl i'r ymrwymiad i gyflawni hyn mae awydd gwirioneddol i wella'r gwasanaeth a gwneud profiad y claf mewnol mor gadarnhaol â phosibl i ddefnyddwyr y gwasanaeth a'u gofalwyr. Mae gan Uned Ablett lawer iawn i ymfalchïo ynddo."

Dywedodd Marion Janner (sylfaenydd 'Star Wards') "Roedd yn wych cael ymweld ag Uned Ablett ac i gael gweld yr arbenigedd, ymrwymiad a'r dychymyg sydd wedi creu gwasanaeth mor eithriadol. Defnyddir, neu ymgeisir i 'roi'r cleifion ar y blaen', ond hwn yw'r dynamig cryf sy'n greiddiol i'w holl waith. Nid yn unig maent wedi cael y wobr 'Full Monty', ond mae'r profiadau llawn a therapiwtig maent yn eu cynnig i gleifion yn fwy o lwyddiant byth."

DIWEDD

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Mrs Dawn Davies **01745 534495**

Yn y llun yn derbyn y wobr mae (chwith i'r dde): Gaynor Kehoe Lewis (rheolwr gofal llym) a Mandy Richards (therapydd galwedigaethol).

Photographed receiving the Award are (left to right): Gaynor Kehoe Lewis, Acute care manager and Mandy Richards, Occupational therapist.

15 June, 2010

Ablett unit receives Star Wards Award for outstanding patient care

On June 2nd 2010, the Ablett Unit was presented with 'The Star Wards Award for outstanding patient care.'

Star Wards is a project which works with Mental Health units to enhance inpatients' daily experiences and treatment plans.

From around the UK there is now plenty of evidence that services who have adopted the Star Wards initiative have significantly made a difference to the Service Users experience, well being and steps to recovery.

The Ablett Unit commenced this piece of work in January of this year and remarkably achieved this award by the beginning of May.

Julie Mountford (Service Manager) said "Behind the commitment to achieve this lay a genuine desire to improve the service and make the inpatient experience as positive as it can be for service users and their carers. The Ablett Unit have much to be proud of."

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board

Marion Janner (Founder of Star wards) said "It was fantastic visiting the Ablett Unit and being able to see for myself the extent of the expertise, commitment and imagination that has created such an outstanding service. The phrase 'putting the patients first' is often used or aspired to, but this is the powerful dynamic underlying all their work. Not only have they achieved the Full Monty Award, but the fulfilling and therapeutic opportunities they provide for patients represent even more of an achievement."

ENDS

For further information please contact Mrs Dawn Davies on 01745 534495.